

Data llygredd aer ym Mhort Talbot

Ymagwedd ar y cyd at ddatblygu tystiolaeth dda i'w defnyddio wrth ddod i benderfyniadau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Port Talbot

Trosolwg

Mae Tîm Data Gronynnau Port Talbot wedi datblygu ymagwedd ar y cyd at ddatblygu data a gwybodaeth. Trwy ddod â phartneriaid allweddol at ei gilydd i gasglu data ar ansawdd aer, a'i fonitro, gellir seilio penderfyniadau'r dyfodol ar dystiolaeth amgylcheddol gadarn, a fydd yn cefnogi penderfyniadau ynghylch datblygu cynaliadwy.

Cefndir

Yn hanesyddol, mae Port Talbot wedi bod yn ddarostyngedig i lefelau uchel o lygredd o ronynnau sy'n cael eu cludo yn yr aer. Cyfeirir at hyn fel PM10 (gronynnau sy'n llai na 10micron mewn diamedr), ac, yn gyffredinol natur ddiwydiannol yr ardal sy'n cael ei dal yn gyfrifol am hyn. Yn sgil hyn, dynododd yr Awdurdod Lleol Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Mae'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn cwmpasu mwyafrif yr ardal breswyl rhwng y gwaith dur a thraffordd yr M4.

Canlyniadau

Pennu canlyniadau sy'n ychwanegu at les Cymru

Tystiolaeth

Gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio gwell gwybodaeth

Cydweithio

Gweithio gydag eraill ar draws ffiniau

Hir dymor

Rhoi sylw i'r achos yn hytrach na'r symptomau

Cysylltu

Canolbwyntio ar y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol

Tryloywder

Mesur y gwahaniaeth yr ydych chi'n ei wneud ac adrodd arno

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Yn hanesyddol, mae Port Talbot wedi bod yn ddarostyngedig i lefelau uchel o lygredd o ronynnau sy'n cael eu cludo yn yr aer. Cyfeirir at hyn fel PM10 (gronynnau sy'n llai na 10micron mewn diamedr), ac, yn gyffredinol natur ddiwydiannol yr ardal sy'n cael ei dal yn gyfrifol am hyn. Yn sgil hyn, dynododd yr Awdurdod Lleol Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Mae'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn cwmpasu mwyafrif yr ardal breswyl rhwng y gwaith dur a thraffordd yr M4.

I raddau helaeth, y gwaith dur mawr sy'n cael ei dal yn gyfrifol am yr allyriannau PM10, ond mae yna allyriannau hefyd o ffynonellau eraill tu allan i'r adeiladau hyn, gan gynnwys trafndiaeth ar y ffordd, rhoi halen ar yr heolydd, ffynonellau domestig, prosiectau adeiladu, ffynonellau naturiol (fel ewyn o'r môr) a ffynonellau trawsffiniol.

Pam

Am fod gronynnau PM10 yn eithriadol o fach (nid oes modd eu gweld, yn gyffredinol), maen nhw'n medru mynd yn ddwfn i'r ysgyfaint, ble maen nhw'n medru cythruddo clefydau anadlu. Mae gan ansawdd aer gwael oblygiadau ar gyfer iechyd pobl, ac mae gan hyn sgil-ffeithiau o ran costau i'r gwasanaeth iechyd ac effeithiau posib ar yr economi lleol, o ran argaeledd gweithlu iechyd. Mae gwella ansawdd yr aer, felly, yn amcan allweddol i Lywodraeth Cymru, ynghyd ag ymrwymiad cryf i warchod iechyd a lles pobl a'r amgylchedd.

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn gofyn i awdurdodau lleol wneud gwelliannau i ansawdd aer lleol. Yn ychwanegol at hyn, mae gan Weinidogion Cymru bryderon parhaus ynghylch y perygl y gallai'r crynodiadau PM10 ym Mhort Talbot fod yn fwy na'r gwerth terfyn cymedrig dyddiol perthnasol a nodir yng Nghyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd a rheoliadau cartref ar ansawdd aer amgylchynol.

Mae'r Gyfarwyddeb yn gosod gwerth terfyn ar gyfer y crynodiad cymedrig dyddiol o PM10, sef 50 microgram y metr ciwbig, ac ni ddylai fod yn fwy na hyn fwy na 35 gwaith mewn blwyddyn galendr. Mae methu â chadw at Gyfarwyddebau Ewropeaidd yn ein gadael ni'n agored i ddirwyon tor-dyletsydd, sy'n gallu bod yn sylweddol.

Beth wnaethon nhw

Caiff llygryddion sy'n dod o dan Gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Ansawdd Aer eu monitro gan rwydwaith o fonitorau ansawdd aer awtomatig a ddefnyddir i riportio i'r Undeb Ewropeaidd, monitorau ychwanegol yr awdurdod lleol a monitor Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff y monitorau, a'r data a gesglir, eu hasesu'n barhaus gan arbenigwyr ar ansawdd aer. Maen nhw hefyd yn cael archwiliadau sicrhau ansawdd achlysurol, ffurfiol (gan ymgynghorwyr arbenigol), i sicrhau eu cywirdeb a'u cadernid.

Nawr, mae amrywiaeth o bartneriaid sydd â diddordeb wedi datblygu ymagwedd ar y cyd at ddeall ansawdd yr aer yn well ym Mhort Talbot.

Mae'r ymagwedd ar y cyd hon yn digwydd yn y fforymau canlynol, gyda chynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Phort Talbot a diwydiannau lleol sy'n gysylltiedig ag adeiladau'r gwaith dur, gan fod y gwaith dur wedi cael ei nodi fel cyfrannwr arwyddocaol at allyriannau PM10:

- Grŵp Llywio: mae'n cwrdd tair gwaith y flwyddyn, gyda'r diben o adolygu gwaith strategol parhaus, a chyfeirio adnoddau ymchwil, treialon a chyfalaf yn briodol.
- Grŵp Rheoleiddwyr: mae'n cwrdd tair gwaith y flwyddyn i adolygu'r camau y mae'r rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru'n eu cymryd ym Mhort Talbot.
- Y Tîm Data: mae'n cwrdd yn fisol i adolygu'r data ar PM10 a gwella'r broses o reoli'r data, a'i ddehongli, i sicrhau bod modd cymryd camau gweithredu deallus ar draws y mudiadau gwahanol. Mae'r Tîm Data hefyd yn rhoi'r diweddaraf i'r Grŵp Llywio i'w alluogi i gynllunio'n strategol a chynllunio adnoddau.

Y Tîm Data yw'r gweithgor technegol sy'n craffu ar dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli, ac yn diffinio'r gwaith sydd ei angen yn y dyfodol i'w chynnal a'i gwella. Mae'r sylfaen tystiolaeth hon wrth wraidd y broses o ddatblygu camau gweithredu effeithiol i ostwng crynodiadau PM10 ym Mhort Talbot. Y Tîm yma sydd â'r dasg o adolygu'r wybodaeth ar PM10, a gwella'r broses o reoli data, a'i ddehongli, ar draws y mudiadau gwahanol. Mae'r grŵp yn asesu canlyniadau gwaith dadansoddi, ac effeithiolrwydd buddsoddiadau a threialon a gynhelir i reoli ansawdd aer o fewn y terfynau a ddiffiniwyd.

Caiff elfennau allweddol o waith Tîm Data PM10 eu hadolygu'n allanol gan gymheiriaid. Mae hyn yn helpu sicrhau bod rhaglen waith y Tîm yn dal i ganolbwyntio ar ei amcan o ddarparu sylfaen tystiolaeth sy'n gadarn ac yn addas at y diben, a'i fod yn gwneud y defnydd gorau o'r data gwyddonol a'r methodolegau.

Bwriad ymagwedd ar y cyd y Tîm Data yw helpu lleihau'r perygl o gael mwy na 35 diwrnod tor-dyletswydd erbyn diwedd blwyddyn galendr, a sicrhau bod penderfyniadau strategol yn seiliedig ar y dystiolaeth gadarn.

Beth newidiodd

Ers dechrau'r ymagwedd Tîm Data, mae yna dystiolaeth fod pob rhanddeiliad wedi ei arfogi'n well i ymateb i newidiadau mewn ansawdd aer. Mae gwaith partneriaeth rhwng y Llywodraeth, rheoleiddwyr a diwydiant yn darparu sylfaen i benderfynu'n effeithiol, ar sail yr wybodaeth orau sydd ar gael.

Fe fydd meithrin y perthnasoedd gwaith hyn, a'u gwella, yn helpu cryfhau ein gallu i wella ansawdd yr aer ymhellach ar gyfer trigolion Port Talbot. Mae'r broses hefyd yn darparu tryloywder, fel bod mudiadau allweddol, fel y gwaith dur a'r rheoleiddwyr, yn gallu gweithio'n agosach a deall yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar ansawdd yr aer dros gyfnod o amser.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Beth ddysgon nhw

Mae sicrhau bod gwybodaeth ar lefelau llygredd aer ar gael i'r cyhoedd wedi bod yn agwedd bwysig. Ble'n bosib, mae modd i unrhyw un weld yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch parthau, crynodiadau a rhybuddion ynghylch torri safonau ansawdd aer trwy wefan UK Air Quality a gwefan Ansawdd Aer Cymru. Mae rhannu gwybodaeth wedi helpu galluogi'r cyhoedd i graffu ar benderfyniadau rheoli, fel y gwelwyd yn natur dechnegol ymholiadau diweddar.

Roedd modd defnyddio'r data, yr wybodaeth a'r dystiolaeth a gynhyrchwyd trwy'r Tîm Data PM10 i fwydo penderfyniadau ynghylch datblygu cynaliadwy, yn enwedig mewn perthynas â therfynau amgylcheddol.

Manylion Cyswllt a Dolenni

Ruth Tipping – Uwch Arweinydd Tîm (Datblygu Cynaliadwy a Chynllunio), Cyfoeth Naturiol Cymru
029 2046 6167

Ruth.Tipping@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Awyr Lân i Bort Talbot: Cynllun Gweithredu Tymor Byr
Deall PM10 ym Mhort Talbot
Gwefan Ansawdd Aer Cymru
Gwefan UK Air Quality

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>